

**Cyngor Cymuned Bontnewydd**  
**COFNODION CYFARFOD MISOL**  
**Medi 6ed 2012; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd**

**Presennol :**

Cynghorydd Erddyn Davies yn cadeirio, gyda Cynghorydd Dafydd Iwan, Eddie Hughes, Emyr Williams, Sioned Williams, Ifor D. Williams.

Hefyd yn bresennol oedd y clerc, Bryn Hughes

**DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL**

Cynghorydd Erddyn Davies ar eitem yn ymwneud ag yswiriant y Cyngor. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**YMDDIHEURIADAU :**

Cynghorydd Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas, Marian Roberts, Rhys Pugh a'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes.

**CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

**Penderfyniad :** Fe dderbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir drwy gynnig gan Cyng. Ifor Williams a gafodd ei eilio gan Cyng. Emyr Williams. Dim gwrthwynebiad.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Trosedd ym Montnewydd :** ymateb gan Hywel Williams AS.

Fe roddodd y clerc gopi o lythyr Mr Hywel Williams AS i'r Cyng. Ifor Williams i'w ystyried. Dim camau pellach.

**Drws yr adeilad wrth ochr Eglwys Llanfaglan :** Diweddariad.

**Penderfyniad :** Mae'r clerc i gysylltu a'r Brodyr Jones a gofyn iddynt beidio a phaentio'r drws newydd fel gall y tywydd rhoi'r un effaith ar y drws a gweddill y gwaith coed sydd o amgylch yr adeilad.

**Diweithdra yn yr etholaeth :** manylion gan Hywel Williams AS.

**Penderfyniad :** Fe gafodd yr ystadegau diweithdra ei ystyried a gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Mr Williams yn diolch iddo am ein diweddaru.

**Arwydd llwybr beicio a cherddwyr - Rhos Bach, Caeathro.**

**Penderfyniad :** Mae'r clerc wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn ei atgoffa o'r arwydd. Fe roddir pythefnos iddynt ymateb cyn cysylltu eto.

**Pont Saint (A487 Llanfaglan/Coed Helen) :** ymateb Cyngor Tref Caernarfon

**Penderfyniad :** Derbyn er gwybodaeth

**MATERION ARIANNOL**

**DATGANIAD Y BANC :** Balans hyd at 28 Gorffennaf 2012 yn £14668.56

**UHY Hacker Young :** Archwiliad Blynnyddol y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2012.

Adroddiad yr Archwiliwr a cymeradwyo'r datganiad blynnyddol.

**Penderfyniad :** Derbyn adroddiad UHY Hacker Young a derbyn y cyfrifon. Yn cynnig oedd Cyng. Ifor Williams, gyda'r Cyng. Dafydd Iwan yn eilio. Mi fydd y clerc a'r Cadeirydd yn cwblhau'r ffurflen cyn i'r clerc ei anfon yn ôl at yr Archwiliwr. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith trylwyr.

**UN LLAIS CYMRU :** Derbynneb am y ffi aelodaeth. Cynrychiolydd ar y Pwyllgor Rhanbarthol

**Penderfyniad :** Derbyn er gwybodaeth a fe gynigiodd Cyng. Dafydd Iwan fod Cyng. Sioned Williams yn cael ei dewis fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor Rhanbarthol. Fe'i eilwyd gan Cyng. Ifor Williams.

Fe ddywedodd y Cyng. Sioned Williams y byddai'n barod i fynd i'r cyfarfod cyntaf ac yna gwneud penderfyniad fwy parhaol ar ôl hynny. Mi fydd y clerc yn mynychu'r cyfarfod nesaf yn ogystal.

**PWLB (Public Works Loans Board) :** Datganiad ar fenthyciad y Cyngor Cymuned.

**Y Balans gyfredol yn £10869.27**

**Penderfyniad :** Derbyn er Gwybodaeth. Adroddodd y clerc fod y balans ar y benthyciad bellach yn debygol o fod yn llai na balans disgwyliedig y cyfrif ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13.

**CYFLOG A CHOSTAU CLERC : Mis Awst 2012**

Cyflog misol	£208.18	
Swm cynnal swyddfa	£ 45.00	
Costau a threuliau	£ 5.40	[DIM T.A.W.]
<b>CYFANSWM GROS</b>	<b>£258.58</b>	
Treth Incwm	£ 41.60 -	
Yswiriant Gwladol	£ 0.00 -	
<b>CYFANSWM NET</b>	<b>£216.98</b>	

**Penderfyniad :** Derbyn er gwybodaeth

**ZURICH MUNICIPAL : Yswiriant 2012-2013**

Gan gynnwys yswiriant y Clwb Pel-droed Ieuencid, oedd yswiriant 2011-12 yn £1941.50 (sef £1747.57 + £193.93 dros y CPDI).

Gan gynnwys yswiriant y Clwb Pel-droed Ieuencid, mae'r yswiriant eleni yn £1985.55 os ar gytundeb blwyddyn, neu

£1887.62 y flwyddyn os ar gytundeb 3 blynedd, neu

£1789.66 y flwyddyn os ar gytundeb 5 mlynedd.

**Penderfyniad :** Cytuno i gytundeb 5 mlynedd hefo Zurich Municipal drwy gynnig gan Cyng. Dafydd Iwan a gafodd ei eilio gan Cyng. Ifor Williams. Dim gwrthwynebiad.

**CYNLLUNIO**

**CAIS C12/1022/14/LL** Lleoli tyrbein gwynt yn Hendy Farm, Caernarfon.

Mae nifer o ohebiaeth wedi cyrraedd yn gwrthwynebu'r cais. Mae gwahoddiad wedi dod gan y datblygwr i aelodau ddod draw i'r safle. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gyrru llythyr yn gwrthwynebu yn barod.

**Penderfyniad :** Nodi'r ffaith nad yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn ymateb i'w gwrthwynebiad a cofnodi'r gwrthwynebiadau sydd wedi ei derbyn.

**CAIS C12/1042/19/LL** Gosod carafan statig yng nghlwb Golff Caernarfon i'w Ddefnyddio fel storfa.

**Penderfyniad :** Dim gwrthwynebiad

**CAIS C12/1031/19/LL** Codi adeilad amaethyddol ar gyfer gwartheg i'w ddefnyddio am 5 mis o'r flwyddyn.

**Penderfyniad :** Dim gwrthwynebiad

**GOHEBIAETH**

**SEFYDLIAD AREN CYMRU :** Datganiad cyfrifon / cais a wrthodwyd

**Penderfyniad :** Rhoi rhodd o £25. Yn cynnig oedd Cyng. Emyr Williams gyda'r Cyng. Dafydd Iwan yn eilio.

**CYNGOR GWYNEDD :** Gorchymyn ar Ffordd Dosbarth III Lôn Caeathro - Bontnewydd (Cyfyngiad 30 m.y.a.) Diddymu'r cyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. a'i newid i gyfyngiad cyflymder 30 m.y.a.

**Penderfyniad :** Mae'r clerc i ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn datgan ein boddhad gyda'r penderfyniad.

**CYNGOR GWYNEDD** : Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar gorff Llywodraethu Ysgol Bontnewydd.

**Penderfyniad** : Mae'r Cynghorydd Emyr Williams am gario 'mlaen i fod yn gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y corff Llywodraethu.

**MATERION ERAILL**

**Mater gan Cyng. Dafydd Iwan** : Ymweliad Carl Sargeant AC, Gweinidog Llywodraeth Lleol a Chymunedau i Bontnewydd.

Ar 4 Medi 2012, fe gyhoeddwyd, ar fyr rybudd, fod Carl Sargeant AC, Gweinidog Llywodraeth Lleol a Chymunedau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ymweld a'r ardal gyda'r bwriad o edrych ar faterion trafndiaeth ym Montnewydd. Oedd y neges yn ymddangos fod yr ymweliad wedi ei drefnu gan drydydd parti, ac er mai ymweliad swyddogol ydoedd, nad oedd modd estyn gwahoddiadau i bobl eraill, a byddai'n rhaid i geisiadau o'r fath ei hanfon at y trefnwyr lleol. Nid oedd unrhyw fynegiad yn y neges o bwy oedd y 'trefnwyr lleol'.

Wedi trafodaeth, fe wnaed y penderfyniad canlynol :

**Penderfyniad** : Mae'r clerc i ysgrifennu at Mr Alun Ffred Jones AC yn gofyn iddo godi'r materion canlynol gyda'r Gweinidog :

(a) Cadarnhau os aeth yr ymweliad ymlaen.

(b) Datgan siomedigaeth y Cyngor Cymuned yn y ffaith na chaiff 'pobl eraill' ei gwahodd i'r cyfarfod a gofyn paham oedd yna'r fath waharddiad.

(c) Ymhle oedd y digwyddiad.

(ch) Pwy oedd y trydydd parti oedd yn trefnu'r ymweliad.

**Mater gan Cyng. Dafydd Iwan** : Cynlluniau i wella ac addasu'r Ganolfan i gyrraedd gofynion angenrheidiol ar gyfer cynnal Cylch Meithrin.

Aeth Cynghorydd Dafydd Iwan ati i egluro i'r aelodau y cynlluniau arfaethedig i wella ac addasu'r Ganolfan fel ei fod yn cyrraedd gofynion angenrheidiol ar gyfer cynnal Cylch Meithrin.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :**

Hydref 4ydd 2012 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Bontnewydd.